

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Datganiad Casglu Data

united
welsh

Pam rydym yn casglu data EDI a sut y byddwn yn ei ddefnyddio

Pwrpas y sector tai cymdeithasol yw darparu cartrefi a gwasanaethau ar gyfer ystod amrywiol o bobl. Mae amrywiaeth ein cwsmeriaid yn nodwedd arbennig o'r sector; ynghyd â mynediad cyfartal i'r cartrefi a'r gwasanaethau a gynigir.

Mae'n bwysig ein bod yn nodi ac yn herio anghydraddoldebau fel y gallwn barhau i wella ein gwasanaethau a gwella profiadau bywyd ein holl gwsmeriaid, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDTQ+, menywod, pobl anabl, y rhai â salwch hirdymor, pobl ar incwm isel a/neu sy'n wynebu rhwystrau cymdeithasol, a phobl sy'n cael eu stigmatiddio a'u stereoteipio.

Pwysigrwydd monitro data EDI

Yn United Welsh, rydym am greu amgylcheddau cynhwysol i'n cwsmeriaid fyw a ffynnu ynddynt. I wneud hyn, mae monitro data yn arf annatod.

Mae casglu a monitro data EDI:

- yn rhoi mewnwelediad dyfnach i effaith ein harferion gwaith a'n polisïau
- yn datgelu sut beth yw bywyd i'n cwsmeriaid ac yn nodi'r rhwystrau cudd y gallent eu hwynebu
- yn ein galluogi i gynllunio ein darpariaeth gwasanaeth i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau rhagorol, gan gynnwys ein holl gymunedau er budd ein holl gwsmeriaid
- yn ein galluogi i nodi a gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu a thuedd anymwybodol ac ymwybodol.

Beth yw'r buddion?

Rydym yn deall ein cwsmeriaid yn well

Gallwn gymryd camau wedi'u targedu os ydym yn deall cyfran y grwpiau lleiafrifol neu warchodedig o fewn ein cymunedau. Gall nodi problemau a rhwystrau penodol y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu lywio camau gweithredu i gefnogi, grymuso a gwneud y mwyaf o botensial ein cwsmeriaid.

Rydym yn gwella effeithlonrwydd

Mae defnyddio data EDI yn golygu bod unrhyw fentrau a gyflawnir i greu cymunedau a gwasanaethau cynhwysol a gynigiwn yn seiliedig ar dystiolaeth nid rhagdybiaethau. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant.

Rydym yn gwella hygredd

Mae cyhoeddi data i ddangos bod mentrau wedi gwella ein cymunedau a gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid amrywiol yn gwella ein henw da fel darparwr tai o ddewis. Bydd gan gwsmeriaid hyder y byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi, cynrychioli a deall eu hanghenion unigol yn rhagweithiol, gan weithredu lle bo angen.

Rydym yn meithrin perthynas â chwsmeriaid

Mae casglu a monitro data EDI yn dangos ein bod yn cymryd profiadau ein cwsmeriaid o ddifrif. Mae gennym ddiddordeb mewn pwy ydyn nhw a beth yw eu hanghenion, ac rydym yn rhagweithiol wrth lunio gwasanaethau i fod yn gynhwysol.

Rydym yn ymateb i angen lleol

Mae gwybod pwy yw cwsmeriaid yn golygu y gallwn gymryd camau wedi'u targedu ac sy'n sensitif yn ddiwylliannol i ymateb i'w hanghenion. Gallwn dargedu a chefnogi'r rhai sydd ei angen fwyaf, mewn ffordd ystyrlon ar yr adeg iawn.

Dewis

Mater i'r cwsmer unigol yn llwyr yw p'un a yw'n dewis rhannu ei ddata personol EDI gyda ni.

Mae United Welsh yn ei ddefnyddio i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir yn y ffordd gywir. Rydym wedi ymrwymo i fod yn ddarparwr tai cynhwysol ac mae'r data yn ein helpu i wneud hyn yn effeithiol a deall pwy yw ein cwsmeriaid.

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ein Contractau

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd yn amlinellu ymhellach sut mae United Welsh yn trin data personol ar gyfer ein busnes craidd, gan esbonio pam mae angen data arnom a'r seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu.

Gallwch ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd yn llawn [yma](#).

Yn falch o fod yn rhan o Grŵp United Welsh

Rydym yn adeiladu cartrefi, yn creu cymunedau ac yn trawsnewid bywydau.